# Canserau haematolegol: gwybodaeth i'r cyhoedd

Mai 2016

## Cemotherapi dwys ar gyfer canser gwaed

Mae NICE wedi ysgrifennu cyngor ar ofal i bobl sy'n 16 oed neu'n hŷn y mae angen iddynt gael cemotherapi dwys at gyfer canser gwaed. Mae'r cyngor hwn ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol (megis meddygon arbenigol, nyrsys a meddygon teulu), ond mae gwybodaeth bwysig y dylai unrhyw un sydd angen y driniaeth hon wybod amdani. Efallai y bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'ch teulu a'ch gofalwyr hefyd.

### *Pam bod y wybodaeth hon yn bwysig i chi?*

Nod NICE yw bod pobl yn derbyn y gofal gorau ni waeth pwy ydynt na ble maent yn byw. Mae'r cyngor NICE hwn yn dweud ble y dylech gael eich cemotherapi a phwy ddylai fod yn rhan o'ch gofal. Nid yw'n disgrifio gwahanol driniaethau cemotherapi - gweler gwybod mwy i gael rhagor o wybodaeth.

### *Gwybodaeth am ganser gwaed*

Mae canser gwaed (a elwir hefyd yn ganser haematolegol) yn golygu canser y celloedd gwaed neu'r system lymffatig - rhan bwysig o'ch system imiwnedd. Mae llawer o fathau gwahanol o ganser gwaed ond gelwir y prif rhai yn lewcemia, lymffoma a myeloma.

Caiff canser y gwaed ei drin fel arfer gyda chemotherapi, sy'n defnyddio cyffuriau i ladd celloedd canser. Mae cemotherapi dwys yn golygu cael dognau uchel o gemotherapi. Rhoddir y cemotherapi dros sawl diwrnod fel arfer, ac yna byddwch yn cael seibiant o saith diwrnod o leiaf i wella cyn dechrau dogn arall o gemotherapi. Nod y driniaeth hon yw tynnu'r rhan fwyaf neu'r holl gelloedd canser o'ch corff. Pan fydd hyn yn digwydd, fe'i gelwir yn 'wellhad dros dro'.

Mae'r cyffuriau cemotherapi hefyd yn lleihau nifer celloedd gwyn y gwaed (celloedd sy'n ymladd heintiau) yn eich corff am gyfnod byr. Enw'r cyflwr hwn yw niwtropenia. Mae gan bobl sydd â niwtropenia systemau imiwnedd gwan ac maent yn fwy tebygol o gael heintiau.

## *Y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Dywed NICE, os bydd eich triniaeth yn debygol o roi niwtropenia difrifol i chi am wythnos neu fwy, bydd angen gofal arbennig arnoch i'ch diogelu rhag haint. Mae hyn yn golygu cael eich cemotherapi mewn canolfan hemotoleg arbenigol y gallwch ei chyrraedd heb fynd trwy adrannau eraill. Os yw eich tîm gofal yn credu y gallech ddal heintiau o bobl eraill yn y ward, efallai y byddwch yn derbyn gofal yn eich ystafell eich hun ac yn cael eich ystafell ymolchi eich hun (gelwir hyn yn 'bod ar eich pen eich hun'). Dylai'r ystafell fod wedi'i chynllunio ar gyfer pobl sydd â systemau imiwnedd gwan, a dylech allu aros ynddi nes bod eich celloedd gwaed yn dychwelyd i lefelau arferol.

### Pwy ddylai ofalu amdanoch

Dylai tîm arbenigol yng nghanolfan hemotoleg yr ysbyty ofalu amdanoch trwy gydol eich triniaeth. Dylai'r tîm gadw mewn cysylltiad â'ch meddyg teulu ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sydd angen gwybod beth sy'n digwydd gyda'ch gofal. Dylai un nyrs arbenigol yn y tîm weithredu fel eich prif berson cyswllt a dylai eich cefnogi yn ystod eich salwch. Dylai roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i chi a gwneud yn siŵr eich bod yn gweld unrhyw bobl o dimau cymorth eraill y mae angen i chi eu gweld.

Dylai meddygon ymgynghorol sy'n arbenigo mewn hemotoleg fod ar gael 24 awr y dydd, a gall arbenigwyr canser eraill (a elwir yn oncolegwyr) roi cyngor neu ofal hefyd os bydd ei angen arnoch.

### Cael triniaeth fel claf allanol

Efallai y byddwch yn gallu cael eich triniaeth fel claf allanol. Mae hyn yn golygu yn lle aros yn yr ysbyty am sawl wythnos, y byddwch yn cael cemotherapi yn yr ysbyty yn ystod y dydd ac yn aros gerllaw (er enghraifft mewn fflat neu westy y mae'r ysbyty yn talu amdano) neu gartref dros nos (gelwir hyn yn 'driniaeth ddydd' weithiau).

Os byddwch yn cael triniaeth ddydd, dylai eich cemotherapi ddigwydd mewn ardal cleifion allanol arbennig lle y gellir eich cadw mor ddiogel â phosibl rhag haint. Bydd rheolau y bydd yn rhaid i chi eu dilyn os byddwch yn cael triniaeth ddydd, megis gwneud yn siŵr y gallwch gyrraedd yr ysbyty yn gyflym os byddwch yn dechrau mynd yn sâl.

Os hoffech gael triniaeth fel claf allanol dylai eich tîm gofal esbonio'r hyn y mae'n ei olygu a rhoi rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig i chi. Gall fod yn addas i chi:

- os gall staff yr ysbyty ddod o hyd i rywle gerllaw i chi aros – gallai hyn fod yn fflat neu'n westy y mae'r ysbyty yn talu amdano, neu efallai y gallwch fynd adref os ydych yn byw yn lleol
- os nad oes gennych gyflyrau meddygol eraill a allai achosi problemau
- os oes gennych deulu neu ofalwyr a all aros gyda chi
- os byddwch yn deall yr hyn sydd wedi'i gytuno yn eich cynllun triniaeth a sut i gadw eich hunan yn ddiogel
- os byddwch chi a'ch teulu neu ofalwyr yn gwybod beth i'w wneud os byddwch yn dechrau teimlo'n sâl neu os bydd argyfwng
- os byddwch yn gwybod sut i gysylltu â'ch tîm gofal ar unrhyw adeg
- os bydd gennych gynllun ar gyfer sut i gyrraedd yr ysbyty os bydd angen triniaeth arnoch.

Dylech gael rhif llinell gymorth 24 awr i'w ffonio os bydd angen help arnoch. Dylai'r llinell hon gael ei rhedeg gan weithwyr proffesiynol hemotoleg wedi'u hyfforddi'n arbennig.

**Sut y caiff labordai eu trefnu**

Mae NICE hefyd wedi ysgrifennu cyngor ar sut i drefnu'r labordai sy'n cynnal profion i wneud diagnosis o ganser gwaed. Maent yn y fersiwn o'r cyngor ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

## *Gwybod mwy*

**Cwestiynau y gallech eu gofyn**

- Pa fath o ganser gwaed sydd gen i? A allwch roi rhagor o wybodaeth i mi?
- A allwch ddweud mwy wrthyf am gemotherapi?
- A oes unrhyw opsiynau triniaeth eraill y gallwn roi cynnig arnynt?
- A allaf gael fy nhriniaeth fel claf allanol?
- Sut y gwn i fy mod yn dechrau cael haint?
- Beth ddylwn i ei wneud os byddaf yn dechrau teimlo'n sâl? Â phwy y dylwn gysylltu?
- A oes unrhyw grwpiau cymorth lleol y gallaf gysylltu â hwy?

**Rhagor o gyngor a chefnogaeth**

- Bloodwise, 0808 2080 888
  http://www.bloodwise.org.uk
- Ymchwil Canser y DU, 0808 800 4040
  www.cancerresearchuk.org
- Gofal Lewcemia, 08088 010 444
  www.leukaemiacare.org.uk
- Cymdeithas Lymffoma, 0808 808 5555
  www.lymphomas.org.uk
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 00
  www.macmillan.org.uk
- Myeloma y DU, 0800 980 3332
  www.myeloma.org.uk

Gallwch hefyd fynd i wefan NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

Gallwch weld y cyngor y mae NICE wedi'i lunio ar wneud diagnosis a thrin mathau penodol o ganser gwaed drwy ymweld â'n tudalen we am ganserau gwaed a mêr esgyrn.

Efallai y byddwch hefyd am ddarllen cyngor NICE ar:

- brofiadau cleifion o wasanaethau'r GIG i oedolion, sy'n nodi'r hyn y dylai oedolion allu ei ddisgwyl wrth ddefnyddio'r GIG
- cadw at feddyginiaethau, sy'n nodi sut y dylai oedolion fod yn rhan o benderfyniadau ynglŷn â pha feddyginiaethau i'w cymryd.

**Beth yw canllawiau NICE?**

Mae NICE yn rhoi cyngor i staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ynglŷn â sut i ofalu am bobl â gwahanol gyflyrau ac anghenion. Mae ein canllawiau yn seiliedig ar yr ymchwil gorau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-1915-4